

## Cofion

Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Mae Sam Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Whiston, Lerpwl yn dilyn damwain i'w fys yr wythnos ddiwethaf, a chymerwyd Hywel Wyn Davies (Cefn Berain), Morfudd Roberts a Bessie Roberts (Llanefydd) i Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos. Hyderwn y bydd y pedwar ohonynt yn gwella'n fuan iawn, ac y byddant yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn. Parhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno a chyflwynwn yntau hefyd i ofal tyner ein Duw. Cofiwn hefyd am deuluoedd y cleifion, gan ddiolch am eu gofal a'u hymroddiad hwythau.

## Mwy o ddiolchiadau!

Derbyniwyd llythyr o werthfawrogiad gan Mr Edwin Hughes (cyn-Ysgrifennydd y Gymdeithasfa) yn gofyn i ni fynegi diolch y Gymdeithasfa i bawb yn yr Ofalaeth fu ynglŷn â'r "trefniadau ardderchog, gyda phopeth yn gweithio'n hwylyus, a'r croeso di-guro a gafwyd." Yn yr un modd, cafwyd gair o ddiolch gan Mr Huw Tudor, cyn-lywydd y Gymdeithasfa, a hefyd dymuniad Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn yr eisteddiad yr wythnos ddiwethaf oedd inni fynegi eu gwerthfawrogiad hwythau o'r croeso a roddwyd gan aelodau Gofalaeth Bro Aled i'r Gymdeithasfa a gynhaliwyd yn Llansannan. Felly, diolch yn fawr iawn i chi i gyd!

## I ddod

- **DARLITH** yn Ffestri Llansannan nos Iau, Mehefin 5ed am 7.30 gyda Rhodri Glyn yn darlithio. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **DIWRNOD DYNION** yn y Bala ar Mehefin 7fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 8fed yng Nghapel Pisgah, Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2013-14. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.
- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – i'r merched y tro hwn gyda Vinny Commons yn cyflwyno 'The Potter and the Clay' yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mehefin 9fed am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 13eg-14eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18<sup>fed</sup> Mai 2014

## Darlleniad y Dydd

1 Timotheus 1:12-17

(BCND tud.229 / BCN: tud.210)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd ar ôl wythnos hyfryd o braf. Mae hi'n tyfu! Ac mae golwg hyfryd ar y wlad. Mae'r Fro wedi ei thrawsfurfio bellach a noethni'r gaeaf wedi diflannu'n llwyr dan y wisg newydd a gafodd!

Yn y darlleniad heddiw mae Paul yn canmol y gras sydd wedi ei newid yntau – haelioni Duw yn ei newid o fod yn gablwr ac yn elyn i lesu i fod yn apostol grymus a oedd yn cario'r neges am lesu i'r rhai nad oeddent erioed wedi clywed amdano! Ceisiwn yr Arglwydd sy'n gallu ein newid ninnau hefyd!

Wnaethoch chi sylwi ar y geiriau y mae Paul yn eu defnyddio i'w ddisgrifio'i hun cyn iddo gyfarfod lesu wyneb yn wyneb ar ffordd Damascus? 'Fi'r pechadur pennaf' meddai amdano fo'i hun. I ni'r Cymru, nad ydym yn hoff o ymffrost o unrhyw fath, mae hyd yn oed galw'n hunain yn 'waelaf o bechaduriaid' yn annerbyniol ac yn chwithig rhywsut. Feiddiwn ni ddim dweud ein bod y gorau am ddim byd! Ond argyhoeddiad Paul amdano'i hun mai ef oedd y pennaf o droseddwyr. Mae hyn oherwydd ei fod, wrth edrych yn ôl ar ei fywyd cyn ei dröedigaeth yn gweld ei fod wedi rhoi ei holl egni i wrthwynebu ac erlid aelodau o'r eglwys, a thrwy hynny erlid Crist ei hun. "Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" oedd y cwestiwn a gafodd gan yr Iesu byw.

Wrth i Paul edrych yn ôl ar gyflwr ei galon, mae'n ystyried ei gymhelliad a'i weithredoedd ac yn sylweddoli maint ei wrthryfel yn erbyn y Duw y tybiai ei fod yn ufuddhau iddo wrth geisio dinistrio'r eglwys fore. Dim ond wrth ddod wyneb yn wyneb â lesu a deall fod holl fwriad achubol Duw wedi ei gyflawni yng Nghrist y mae'n dod yn gredadun ac mae ei fywyd yn newid yn llwyr. Does ganddo ddim ar ôl i'w wneud bellach ond dweud wrth bawb am fawredd person Iesu, canmol nerth ei ras a galw ar bawb i gredu ynddo! Dipyn o newid.

Yr hyn sy'n rhyfeddol am ras Duw ydi fod yr un profiad yn eiddo i bob Cristion – yr ymdeimlad a'r argyhoeddiad yn y galon o annheilyngdod eithafol gerbron Duw yn cael ei ddelio ag o gan yr Iesu byw sy'n datguddio ei ogoniant i ni ac yn ein galw wedyn i godi ar ein traed a'i wasanaethu hefo'n holl fywyd. 'O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi - daeth Iesu i'm calon i fyw!'

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Pregethwr 10:16-20 (BCND tud.612 / BCN: tud.559)

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Adnabod – Grŵp Celfyn** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant yn Llanefydd** am 3.15 (yr olaf y tymor hwn).
- **Astudiaeth Feblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 a bydd Sasiwn y Plant yn cael ei gynnal yn Henllan am 2.00 yng nghwmni Nia Wyn Jones, Hendrerwydd.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Henllan am 2.00 yng nghwmni Nia Wyn Jones, Hendrerwydd.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Henllan am 2.00 yng nghwmni Nia Wyn Jones, Hendrerwydd.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Yna, bydd taith feicio o amgylch y Brenig gan gyfarfod yn y maes parcio yn brydlon am 2.00. Croeso i'r rhai nad ydynt am feicio ymuno am de yn y caffi tua 3.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 10.45.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Rhag-rybudd Bydd Clwb Cinio nesaf yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain **dydd Iau, Mai 29ain** yn hytrach nag ar ddydd Gwener cyntaf Mehefin. Rhowch wybod i Meryl cyn gynted â phosib os nad yw'n gyfleus.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.